# NICKY MAY
# CLWB RYGBI'R GYNGHRAIR SEINTIAU DE CYMRU

Nicky yw Pennaeth Rygbi Ieuenctid Seintiau De Cymru. Dim ond 27 oedolyn oedd wedi cofrestru â'r clwb newydd yma'r tymor diwethaf. Eleni, diolch i lawer o waith caled wedi'i arwain gan Nicky, mae gyda'r clwb dri thîm ieuenctid - Dan 8 oed, Dan 10 oed a Dan 14 oed. Bellach, mae gyda nhw dros 120 o chwaraewyr wedi'u cofrestru.

Mae Nicky yn helpu i hyfforddi'r tri thîm ieuenctid. Mae hefyd yn rheoli'r offer a'r nwyddau oddi ar y cae ar gyfer y clwb cyfan. Mae hefyd yn codi arian yn rheolaidd. Pan nad yw'n hyfforddi neu'n chwarae, fe yw'r ystlyswr (linesman) ac mae'n helpu mewn unrhyw ffordd bosibl. Nicky yw'r aelod tîm delfrydol y byddai pob clwb yn dymuno ei gael. Mae'n barod i droi ei law at unrhyw beth, ac mae'n gwneud gwaith gwych bob tro. Boed yn chwarae, cefnogi neu ddatblygu chwaraewyr eraill, mae gwaith Nicky yn cael ei werthfawrogi yn fawr gan bawb yn y clwb.



Chwaraeon RhCT
Sport RCT

## GWIRFODDOLWR Y MIS

## GORFFENNAF 2024